

## Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, nos Fawrth y 11eg o Fehefin 2019

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Justin Davies, Nerys Williams, Dylan Herbert – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sheena Thomas, Sian Dafydd - Talysarn; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; PC Mark Holland eitem 3; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cyngorwyr Sir /  
**Ymddiheuriadau:** Iona Jones, Erfyl Williams – Penygroes, Ffion Jones – Nantlle.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 3. Gwadd: Mark Holland – Heddlu.** (Ymddiheuriad gan Dylan Wynn Jones). Rhoddwyd y Rheolau Sefydlog i un ochr er mwyn trafod yn Saesneg. Pawb yn cytuno. Croesawyd Mark Holland i'r cyfarfod. Mark sydd yn gwasanaethu ardal Penygroes rwan yn dilyn Julie Holland. Doedd ddim yn ymwybodol o fwy o staff yn dod i'r Gogledd. Trafodwyd problemau gyda ieuencid ym mhentref Penygroes. Codwyd pryderon am yfed yn y lloches bws, problemau i fusnesau a grwpiau lleol oherwydd plant yn aflonyddu. Dywedodd Mark fod PC Alex Higgins ar ddyletswyddau ysgafn ar hyn o bryd, ond yn gweithio o Benygroes. (Craig yn cyrraedd y cyfarfod). Diolchwyd Mark am 'patrol' Llanllyfni. Mynegwyd pryderon am or-yrru ym Mhenygroes. Dywedwyd fod arwyddion 20mya ddim yn ddigon amlwg wrth yr ysgol, a bod angen mwy ohonyn nhw. Judith yn diolch i Mark am ei ymroddiad efo gwaith yn y pentref, a chyswllt gyda'r gymuned ac am gymryd rhan actif. Mis nesaf – ar agenda – Polisi Iaith yr Heddlu.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mai.** Gwyndaf yn datgan cywirdeb y cofnodion, a Hefina yn eilio.
- 5. Cyngorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad gan Judith. Cododd y Cyngorwyr y canlynol – fod angen rhywbeth sy'n tynnu mwy o sylw i gerbydau arafu wrth yr Ysgol. Cyngor Gwynedd yn y broses o wneud ymgynghoriad. Dylan yn awgrymu y dylid edrych ar y Penygroes yn ei gyfanrwydd yn hytrach na mesul rhannau bach. Angen casglu syniadau gan drigolion ar y gwahanol strydoedd, a wedyn trafod. Efallai gyrru RHESTR o broblemau i Cyngor Gwynedd, yn hytrach na problemau unigol. Cyfarfod cyhoeddus yn opsiwn. Cafwyd adroddiad gan Craig – Ardal Dim Ysbwriel (Nebo a Llanllyfni) yn lansio mis Gorffennaf. Trafodaeth ynglyn a warden – syniad a roddwyd i Craig oedd ei fod yn gwneud rhyw fras raglen waith iddyn nhw efo'r wybodaeth leol. Mynegwyd pryderon am gyflwr y Quarry yn Llanllyfni - ysbwriel, tyfiant – ysgrifennu at y perchnogion. (OPH/GR). Y Cyngorwyr yn ddiolchgar am gael peintio'r arwydd ar y gylchfan.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Ymateb Swyddfa Bost Deithiol – pryd fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglyn ag ychwanegu Llanllyfni i'w safleoedd rheolaidd. Pryder fod gwasanaeth Post yn Talysarn ddim yn gyson, a fod y peiriannau yn aml – henoed Talysarn ar gollod; Ymateb peintio meiciau – ddiffyg cynnal a chadw yn achosi pydru; Tyllau Lon ysgol Llanllyfni – rhywun wedi disgyn a brifo; Ffordd Bryncelyn – gofyn i'r lon gael ei archwilio eto – tyllau yng nghanol y ffordd ger rhif 44; Holi am ramp Tyn y Weirglodd.
- 7. Materion Pentrefi Nebo** Eboest gan y Parc Cenedlaethol yn hysbysu eu bod yn taclo'r Rhododendron ar y Gors. Dafydd wedi ymateb, a gofyn am nawdd tuag at brosiect y pentref ar waredu'r Canglwm Siapancaidd. Llanllyfni Quad yn cael ei yrru yn y pentref – mater i'r Heddlu; Lon Ddwr – baw cwn – gofyn am arwyddion/bin yn y gilfan bellach draw; Lamp 5 Cefn Faes Llyn angen sylw. Talysarn Coed yn tyfu yn maes parcio Gloddfa Glai tu ol i gefn Nantlle Road; Gofyn i symud y bin cwn yn gefn Ffordd Bryncelyn yn nes i'r adwy a rhoi un mwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'w wagio ac yn nes i'r lon; Problemau efo drws yr ystafelloedd newid – angen prisiau; Cwyn am wagen yn cael ei pharcio ar y twmpath arafu traffic; Tyllau mawr ar Hen Lon – agosaf at Talysarn; Pryder am gyflwr y Skate Park – tyllau yn yr offer. Penygroes Ceblau trydan o'r boc wrth y Vic yn hongian ac angen ei wneud yn saff. Angen ei ddad-gysylltu gan fod perygl I blant – holi Dale os y gallai dynnu'r boc; Twll ger 57 Trem yr Wyddfa.
- 8. Taflen Ariannol a Chyllid/Cyfrifon – Awdit Mewnol.** Cyflwynwyd adroddiad yr archwilwyr mewnol i'r Cyngor, a derbynwyd y cynwys. Cadarnharwyd taflen ariannol a chyllid.
- 9. Cynllunio:** NP3/22/96A Bronallt Nantlle, estyniad cefn deulawr newydd.; C19/0479/22/LL 24-25 Treddafydd, Penygroes – codi 2 ty par deulawr. Cytuno.
- 10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis.** Adroddiad o'r cyfarfod brys yn y mynwentydd – ysbwriel yn y corlannau a blerwch di-angen. Gresynu fod pobl mor fler. Y broblem yn parhau er fod arwyddion a bod sylw wedi ei roi yn Lleu. Penderfynwyd bod rhaid gweithredu ymhellach, a chael prisiau ar gyfer tynnu'r corlannau (gan ddechrau efo Penygroes), a holi cynghorau cymuned eraill am arferion da a beth sydd yn llwyddiannus yn eu mynwentydd nhw. Sut maen nhw'n taclo problem ysbwriel. Efallai edrych i mewn i hawl dirwyo os oes rhywun yn cael eu dal.

**11. Goleuadau Nadolig.** Dylan wedi bod mewn cyfarfodydd efo swyddogion, ac yn disgwyl pris swyddogol ar gyfer y gosodiadau ar y polion. Goleuadau stryd Penygroes yn cael eu uwchraddio i LED a byddai'n gwneud synnwyr ymgymeryd a'r ddau beth 'run pryd.

**12. Clwb Ieuenctid.** Cynnig i gyfarfod y Cyngor fis nesaf.

**13. Cofeb R Williams Parry.** Aros am ymateb pellach gan adran gyfreithiol Un Llais.

**14. Di-ffibriliwr.** Y diweddaraf – bydd yn cael ei leoli ar wal y Banc.

**15. Arolwg Tai.** Trafodwyd cynnwys yr ymateb i lythyr y Cyngor Cymuned. Nifer o gwestiynnau angen eu ateb. Pam na sylweddolwyd ar yr 'abnormals' cyn gwneud y gwaith, pa bryd mae'r archwiliadau yn cael eu cynnal, pa mor ymarferol cynyddu'r grant. A oes bwriad i ail-ymweld a'r rhai a lenwodd yr holiadur yn y lle cyntaf. Penderfynwyd ysgrifennu at Arwel Owen ac i Grwp Cynefin - OP Huws am lunio drafft a'r Clerc i'w gylch-redech rhwng y Cynghorwyr eraill am sylwadau.

**16. Plastigion yn y mynwentydd** Dim ymateb gan y swyddog o Gyngor Gwynedd. Gweler sylwadau pellach yn eitem 10.

**17. Gohebiaeth**

**\*Cyngor Gwynedd:**

\*Gorchymyn gwaharddiadau parcio. OP Huws yn datgan diddordeb. Er gwybodaeth. Dim sylwadau.

\*Gorchymyn gwaharddiadau traffig. Er gwybodaeth. Dim sylwadau.

\*Safle Bws Penygroes – derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd am graffiti yn y lloches. Cynlluniau ar y gweill i dynnu'r lloches i lawr yn y dyfodol agos. Gofyn i Gyngor Gwynedd lanhau.

\*Maes Parcio Penygroes. Gwybodaeth am waith angenrheidiol sydd yn mynd ymlaen yn y maes parcio.

**\*Arall**

\*Ymateb Cyngor Cymuned Llandwrog. Ebost yn diolch am ein llythyr.

\*Planning For Communities – er gwybodaeth.

\*Ymgynghori Cyhoeddus Parc Cenedlaethol Eryri Er gwybodaeth.

\*Play For Wales. Ar y bwrdd.

\*Un Llais Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor. Er gwybodaeth.

\*Cyflwyniad i Orfodaeth Cynllunio. Er gwybodaeth.

\*Cymru Ein Dyfodol. Er gwybodaeth – dim sylwadau.

**18. Llwybrau a Mynwentydd** Llwybr Boncen Eithin – y bont angen sylw, a'r llwybr angen torri cyn allt Tanyrallt; Llwybr o gwmpas y llyn angen torri; Llwybr 14 Hyfrydle Terrace – tyfiant drwg a coed angen eu tocio; Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi am statws llwybr 5; Llwybr 84 ar y ffordd osgoi angen canllawiau; llwybr rhwng Penygroes a Llanllyfni angen ei dorri. Gyrru copi o'r rhestr llwybrau i'r contractwyr er gwybodaeth. Cytundeb Pori (cae newydd MacPelah) – rhoi hysbyseb yn Lleu. Tendro i osod y tir. Angen creu trwydded pori, gydag amodau; Chwyn yn y mynwentydd – derbyniwyd pris ar gyfer pob mynwent – penderfynwyd gofyn i'r contractwyr roi chwynladdwr yn y dair fynwent..

**19. Materion yn ymweud a'r heddlu.**

**20. Materion ariannol** – Biliau – A Johnson Ffon/Rhyngwyd £25; A Johnson derbynebau £16.80; Scottish Power £30.30; Scottish Power £30.30 (eto) Caniatau talu.

**21. Ceisiadau am Arian** – Dim.